**AMODAU CONTRACT AR GYFER GWASANAETHAU**

**Dim ond gyda chytundeb ysgrifenedig y Cleient y gellir amrywio'r Amodau hyn. Ni fydd unrhyw delerau nac amodau a gynigir ar unrhyw adeg gan y Contractwr yn rhan o'r Contract.**

**1. DIFFINIADAU**

1.1 Yn yr Amodau hyn, bydd y geiriau a'r ymadroddion isod yn cadw'r ystyron canlynol:

Ystyr 'Amod' yw amod o fewn y Contract hwn;

Ystyr 'Cleient' yw Comisiynydd y Gymraeg neu unrhyw gynrychiolydd dynodedig iddo;

Ystyr 'Contract' yw'r contract rhwng y Cleient a'r Contractwr sy'n cynnwys y Dogfennau, yr Amodau hyn ac unrhyw ddogfennau eraill (neu rannau ohonynt) a bennir yn y Dogfennau ;

Ystyr 'Contractwr' yw'r person, y ffyrm neu'r cwmni y rhoddir y Contract iddynt;

Ystyr 'Cyfnod Segur' (i'r graddau sy'n gymwys i ddyfarnu'r Contract hwn) yw:

(a) y cyfnod a bennir yn y Dogfennau a ganiateir rhwng rhoi hysbysiad o benderfyniad y Cleient i ddyfarnu'r Contract i'r Contractwr, a'r Contract yn dod yn weithredol rhwng y Partïon; neu

(b) os na phennir cyfnod o'r fath yn y Dogfennau , yna'r isafswm cyfnod gorfodol sy'n rhaid ei ganiatáu rhwng yr hysbysiad o benderfyniad y Cleient i ddyfarnu'r Contract i'r Contractwr a'r Contract yn dod yn weithredol rhwng y Partïon, sef o leiaf deng (10) niwrnod calendr (neu'r cyfryw gyfnod arall a orfodir o bryd i'w gilydd gan unrhyw ofyniad cyfreithiol neu weinyddol sy'n gymwys i'r Cleient);

Ystyr Deddfwriaeth Diogelu yw'r Ddeddf Diogelu Data 1998 (Data Protection Act 1998) a Chyfeireb 95/46/EC, ac unrhyw gyfraith neu reoliad cymwys sy'n ymwneud â phrosesu data personol a phreifatrwydd fel y diwygir , adolygir neu newidir y deddfiad hwnnw o dro i dro, gan gynwys yn sgil gweithredu y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ("GDPR") (EU) 2016/679]

Ystyr 'Deddf Llwgrwobrwyo' yw'r Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno o dro i dro ynghyd ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer a gyhoeddwyd gan adran briodol o'r llywodraeth yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth.

Ystyr 'Diffyg' yw unrhyw rwymedigaeth a dorrir gan y naill Barti neu'r llall o dan y Contract (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i dor-sylfaenol neu dorri amod sylfaenol) neu unrhyw ddiffyg, gweithred, hepgoriad, esgeuluster neu ddatganiad gan y naill Barti neu'r llall, ei gyflogeion, ei weision, ei asiantau neu ei isgontractwyr mewn cysylltiad â chynnwys y Contract neu mewn perthynas â hi ac mae’r cyfryw Barti yn atebol i'r llall mewn perthynas ag ef;

Ystyr 'Dogfennau ' yw'r dogfennau sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 1 sydd yn cynnwys (ble bod hynny’n berthnasol) y dogfennau tendr;

Ystyr 'Dyddiad Cychwyn' (heb ragfarn i unrhyw Gyfnod Segur cymwys) yw'r dyddiad a nodwyd yn y Dogfennau (os na chaiff dyddiad penodol ei nodi)

(a) y dyddiad yr hysbyswyd y Contractwr bod y Contract hwn wedi'i ddyfarnu, lle nad oes Cyfnod Segur perthnasol; neu

(b) pan fo Cyfnod Segur yn gymwys, y dyddiad busnes cyntaf ar ôl i'r Cyfnod Segur cymwys ddod i ben;

Ystyr 'Eiddo Cleient' yw unrhyw eiddo, heblaw am eiddo tirol, a roddir neu a ddaeth ar gael i'r Contractwr gan y Cleient mewn cysylltiad â'r Contract;

Ystyr 'Gwasanaethau' yw'r gwasanaethau a gaiff eu darparu fel sydd wedi'i nodi yn y Dogfennau a bydd, pan fydd y cyd-destun yn caniatáu, yn cynnwys unrhyw ddeunyddiau, erthyglau a Nwyddau i'w cyflenwi drwy hynny;

Ystyr 'Gwybodaeth Gyfrinachol' yw gwybodaeth (sut bynnag y caiff ei chyfleu neu ar ba bynnag gyfrwng y caiff ei storio), y byddai ei ddatgelu yn golygu torri cyfrinachedd sy'n agored i gyfraith, ac sydd naill ai wedi ei dynodi'n gyfrinachol yn ysgrifenedig gan y naill Barti neu'r llall neu y dylid ei hystyried yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd ac sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wybodaeth sy'n cyfeirio at fusnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, datblygiadau, cyfrinachau masnachu, Hawliau Eiddo Deallusol, gwybodaeth arbenigol, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill Barti neu'r llall;

Ystyr 'Hawliau Eiddo Deallusol' yw patentau, dyfeisiadau, nodau masnach, nodau gwasanaeth, logos, hawliau dylunio (boed yn gofrestradwy ai peidio), ceisiadau am unrhyw rai o'r blaenorol, hawlfraint, hawliau cronfeydd data, enwau parth, enwau masnachu neu fusnes, hawliau moesol, ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau tebyg boed yn gofrestradwy

ai peidio mewn unrhyw wlad (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r DU) a'r hawl i ddwyn achos yn erbyn sefyllfa lle bu peri coel;

Ystyr 'Mangreoedd' yw'r lleoliad lle y caiff y Gwasanaethau eu cyflawni, fel sydd wedi'i nodi yn y Dogfennau ;

Ystyr ‘Mangre’r Cleient’ yw unrhyw leoliad ym meddiant y Cleient;

Ystyr 'Manyleb' yw'r fanyleb ar gyfer y Gwasanaethau y mae'r Cleient yn awyddus i'r Contractwr eu cyflawni fel sydd wedi'i nodi yn y Dogfennau ;

Ystyr 'Nwyddau' yw unrhyw nwyddau a gaiff eu cyflenwi i'r Cleient gan y Contractwr (neu gan unrhyw un o isgontractwyr y Contractwr) yn unol â’r Contractwr hwn neu mewn cysylltiad ag ef;

Ystyr 'Pris y Contract' yw'r arian sy'n daladwy gan y Cleient i'r Contractwr am ddarparu'r Gwasanaethau, fel sydd wedi'i nodi yn y Contract;

Ystyr 'Parti' yw'r Cleient neu'r Contractwr, gyda'i gilydd, defnyddir ‘y Partïon’;

Ystyr 'Staff' yw pob person a gyflogir gan y Contractwr i gyflawni'r Contract a / neu'r Gwasanaethau ynghyd â gweision, asiantau ac isgontractwyr y Contractwr a ddefnyddir i gyflawni'r Contract a / neu'r Gwasanaethau; ac

Ystyr 'Treth' yw Treth ar Werth, tollau tramor ac unrhyw drethi neu dollau cymwys eraill.

1.2 Yn yr Amodau hyn, rhaid i unrhyw gyfeiriad at statud, deddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn tebyg arall ("deddfwriaeth"), oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, gael ei ddehongli fel cyfeiriad at ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol neu fel sydd wedi'i chynnwys mewn unrhyw ailddeddfiad dilynol wedi hynny.

1.3 Oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, rhaid i eiriau sy'n dynodi'r unigol gynnwys y lluosog a vice versa, a rhaid i unrhyw gyfeiriadau at unrhyw berson gynnwys bodau dynol, partneriaethau, ffyrmiau, corfforaethau a chyrff corfforedig eraill a phob person cyfreithiol arall o ba fath bynnag a sut bynnag y maent wedi’u cyfansoddi, a bydd geiriau sy'n dynodi unrhyw ryw yn cynnwys y gwryw, y fenyw a'r diryw.

1.4 Dim ond er hwylustod y defnyddir penawdau a theip trwm yn y Contract hwn ac ni ddylai effeithio ar y modd y caiff unrhyw un o ddarpariaethau'r contract hwn ei ddehongli.

1.5 Oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, caiff cyfeiriad at unrhyw ddogfen ei ddehongli fel cyfeiriad at y ddogfen fel ag yr oedd ar ddyddiad rhyddhau'r Contract hwn.

1.6 Mae cyfeiriadau at Amodau ac Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn cyfeirio at amodau ac atodlenni'r Contract hwn.

1.7 Os bydd gwrthdaro neu anghysondeb rhwng unrhyw un o ddarpariaethau'r Amodau ac unrhyw un o ddarpariaethau'r Atodlenni, yr Amodau fydd yn drech.

1.8 Bydd unrhyw gyfeiriad at "cymeradwyaeth" gan y Cleient yn golygu cymeradwyaeth ysgrifenedig.

**2. HYD Y CONTRACT**

2.1 Daw'r Contract i rym ar y Dyddiad Cychwyn a daw i ben yn awtomatig ar y dyddiad a nodir yn y Dogfennau , oni therfynir y Contract yn wahanol yn unol â'r Amodau hyn, neu oni therfynir y Contract yn gyfreithlon, neu ei ymestyn yn unol ag Amod 2.2 isod.

2.2 Os yw'r Dogfennau yn darparu ar ei gyfer, yn amodol ar berfformiad boddhaol y Contractwr yn ystod Cyfnod y Contract, gall y Cleient ymestyn y Contract am gyfnod pellach fel y nodir yn y Dogfennau. Rhaid i'r Cleient hysbysu'r Contractwr os bydd yn dymuno gwneud hynny, a hynny heb fod yn llai nag wyth diwrnod ar hugain (28) cyn diwedd Cyfnod y Contract. Bydd darpariaethau'r Contract yn parhau i fod yn gymwys trwy gydol unrhyw gyfnod estynedig.

**3. ARCHWILIO'R FANGRE A NATUR Y GWASANAETHAU**

3.1 Bernir bod y Contractwr wedi archwilio'r Fangre cyn cychwyn y Contract fel ei fod wedi deall natur a hyd a lled y Gwasanaethau sydd i'w cyflawni ac wedi'i fodloni ei hun mewn perthynas â phob mater sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau a'r Fangre. Y Contractwr sy'n gorfod ysgwyddo unrhyw gost a dynnir gan y Cleient am fod y Contractwr wedi methu ag archwilio'r Fangre neu ddeall natur a hyd a lled y Gwasanaethau yn unol â'r Amod 3 hwn.

3.2 Ar gais y Contractwr, rhaid i'r Cleient roi unrhyw fynediad a fydd yn rhesymol at y diben hwn.

3.3 Y Contractwr fydd yn gyfrifol am gywirdeb pob dyluniad, dogfennaeth a gwybodaeth a gyflenwir i'r Cleient gan y Contractwr a rhaid iddo dalu unrhyw gostau ychwanegol i'r Cleient a fydd yn codi yn sgil unrhyw anghysondebau, gwallau neu anwaith yn hynny o beth.

**4. PENODI**

4.1 Mae'r Cleient yn penodi'r Contractwr i ddarparu'r Gwasanaethau:

4.1.1 yn brydlon ac mewn modd proffesiynol a chwrtais er mwyn adlewyrchu a hybu delwedd y Cleient;

4.1.2 yn unol â'r Dogfennau a holl ddarpariaethau'r Contract;

4.1.3 yn unol â phob un o gyfreithiau a rheoliadau, codau ymarfer ac arferion da y diwydiant sy'n gymwys yn y DU ac yn Ewrop;

4.1.4 yn unol â pholisïau (gan gynnwys unrhyw bolisïau gwahaniaethu ar sail hil a chyfle cyfartal), rheolau, gweithdrefnau a safonau ansawdd y Cleient fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

4.2 Mae'r Contractwr yn derbyn telerau'r penodiad fel sydd wedi'i nodi yn Amod 4.1.

## 5. CYFLAWNI'R GWASANAETHAU

5.1 Rhaid i'r Contractwr, ar ei draul ei hun, ddarparu'r holl Staff, cyfarpar, offer, dyfeisiau, deunyddiau neu eitemau ar gyfer darparu'r Gwasanaethau.

5.2 Os bydd y Dogfennau yn darparu ar gyfer cyflawni'r Gwasanaethau mewn camau, rhaid i'r Contractwr gyflawni'r Gwasanaethau drwy gydymffurfio'n llwyr â'r amserlen ar gyfer y camau fel sydd wedi'i nodi yn y Dogfennau.

5.3 Yn ychwanegol at unrhyw rwymedigaethau mwy penodol a gyflwynir gan delerau'r Contract, bydd yn ddyletswydd ar y Contractwr i ddarparu'r Gwasanaethau gan ddefnyddio'r sgil, y gofal a'r diwydrwydd y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan gontractwr sy'n cyflawni'r busnes arbenigol neu broffesiwn y Contractwr ac sy'n brofiadol wrth ddarparu gwasanaethau o werth, natur, cwmpas a chymhlethdod tebyg i'r Gwasanaethau.

5.4 Bydd y Contractwr yn sicrhau y caiff ei holl rwymedigaethau sydd yn y Contract eu cyflawni a'u cynnal gan Staff sydd wedi cael profiad, cymhwyster a hyfforddiant addas gan ddefnyddio sgil, gofal a diwydrwydd dyladwy.

5.5 Rhaid i'r Contractwr sefydlu a chynnal system briodol o reoli ansawdd (a fydd yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion mwy manwl a nodir yn y Fanyleb) er mwyn sicrhau y caiff y Gwasanaethau eu cyflawni yn unol â darpariaethau'r Contract.

5.6 Yn ogystal ag unrhyw hawliau eraill sydd gan y Cleient o dan y Contract, bydd gan y Cleient hawl i arolygu ac archwilio'r Gwasanaethau a ddarperir yn y Mangreoedd heb unrhyw rybudd, a hynny ar unrhyw adeg. Rhaid i'r Contractwr ddarparu unrhyw gyfleusterau y gallai fod eu hangen ar y Cleient ar gyfer arolygiad neu archwiliad o'r fath.

5.7 Os canfyddir bod unrhyw ran o'r Gwasanaeth yn ddiffygiol neu'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'r Dogfennau, neu nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau'r Contract, rhaid i'r Contractwr, ar ei draul ei hun, ail gyflawni'r Gwasanaethau dan sylw (heb daliad cydnabyddiaeth ychwanegol) o fewn unrhyw amser rhesymol a bennir gan y Cleient. O beidio â gwneud hynny, bydd gan y Cleient hawl i gaffael trydydd parti i gyflawni'r Gwasanaethau diffygiol neu i weithredu'r tasgau dan sylw ei hun.

5.8 Os bydd y gost i'r Cleient o weithredu neu gaffael Gwasanaethau o'r fath yn fwy na'r hyn a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Contractwr am Wasanaethau o'r fath, caiff y tâl-dros-ben ei dalu gan y Contractwr i'r Cleient ar ei gais ar ben unrhyw symiau eraill a allai fod yn daladwy gan y Contractwr i'r Cleient.

5.9 Rhaid i'r Nwyddau foddhau'r Cleient yn rhesymol a byddant yn cydymffurfio ym mhob ffordd ag unrhyw fanylion penodol a nodir yn y Contract hwn ac unrhyw amrywiadau iddo.

5.10 Rhaid i'r Nwyddau gydymffurfio ym mhob ffordd â gofynion unrhyw statudau, gorchmynion, rheoliadau neu is-ddeddfau sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

5.11 Rhaid i'r Nwyddau fod yn addas ac yn ddigonol at y diben y caiff y Nwyddau eu defnyddio fel rheol ar eu cyfer ac at unrhyw ddiben penodol y mae'r Cleient wedi hysbysu'r sy'n cyflenwi'r Nwyddau ac sy'n gweithredu'r Contract.

5.12 Mae'r Contract hwn yn ymgorffori'r rheolau sy'n ymwneud â gwerthiant trwy sampl.

5.13 Bydd rhan helaeth o’r Nwyddau'n cyfateb â'r sampl o ran ansawdd.

5.14 Bydd y Nwyddau'n rhydd o unrhyw ddiffygion a allai olygu bod eu hansawdd yn anfoddhaol, boed yn amlwg ai peidio wrth archwilio'r sampl.

## 6. RHWYMEDIGAETHAU STATUDOL

6.1 Wrth gyflawni'r Contract, rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol sydd am y tro mewn grym gan gynnwys, ond heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr uchod, y rhai sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles, yr amgylchedd, cyflogaeth, diogelu data a chydraddoldeb . Rhaid i'r Contractwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob aelod o Staff y Contractwr a gyflogir neu a gymerir ymlaen i weithredu'r Contract, yn parchu'r darpariaethau hyn. Rhaid i'r Contractwr indemnio'r Cleient yn erbyn pob achos, cais, colled, hawliad, cost a thraul y gall y Cleient eu dioddef neu eu tynnu o ganlyniad i unrhyw doriad o'r rhwymedigaethau statudol.

## 7. AMSER CYFLAWNI

7.1 Rhaid i'r Contractwr ddechrau cyflawni'r Gwasanaethau ar y dyddiad a nodir yn y Fanyleb a rhaid iddo'u cwblhau erbyn y dyddiad a nodir yn y Fanyleb neu barhau i'w cyflawni am y cyfnod a nodir yn y Fanyleb (p'un bynnag sy'n gymwys). Mae amser yn hanfodol bwysig ar gyfer y Contract. Drwy hysbysiad ysgrifenedig, gall y Cleient ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr gyflawni'r Gwasanaethau yn y drefn y penderfynir arni gan y Cleient. Yn niffyg hysbysiad o'r fath, rhaid i'r Contractwr gyflwyno unrhyw raglenni gwaith manwl ac adroddiadau ar gynnydd y bydd y Cleient yn gofyn amdanynt o dro i dro.

7.2 Os bydd oedi wrth gyflawni'r Contract gan y Contractwr o ganlyniad i unrhyw weithred neu Ddiffyg ar ran y Cleient, neu yn sgil unrhyw achos arall na allai'r Contractwr fod wedi gallu ei ragweld na'i atal yn rhesymol ac nad oedd ef yn gyfrifol amdano, bydd gan y Contractwr hawl i estyniad rhesymol o ran amser i gwblhau unrhyw ran o'r Gwasanaethau.

## 8. MONITRO'R GWAITH O GYFLAWNI'R CONTRACT

8.1 Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio ag unrhyw drefniadau monitro a nodir yn y Dogfennau a bydd yn darparu unrhyw ddata a gwybodaeth mewn perthynas â chyflawni'r Gwasanaethau yn unol â chais rhesymol y Cleient.

## 9. ARCHWILIO

9.1 Tan ddwy (2) flynedd ar ôl cwblhau'r Contract, neu am gyfnod y cytunir arno rhwng y Partïon, rhaid i'r Contractwr gadw a chynnal cofnodion llawn a chywir o'r Contract gan gynnwys y Nwyddau a / neu'r Gwasanaethau a ddarparwyd o dan y Contract, yr holl wariant a ad-dalwyd gan y Cleient, yr holl daliadau a wnaed gan y Cleient, a'r (pan fo'r Cleient yn talu am Staff ar sail taliadau am yr amser) oriau a weithiwyd a'r costau a dynnwyd mewn cysylltiad â'r Contract. Ar gais, rhaid i'r Contractwr roi unrhyw fynediad sydd ei angen ar y Cleient neu ei gynrychiolwyr i'r cofnodion hynny mewn cysylltiad â'r Contract. Bydd darpariaethau'r Amod 9 hwn yn gymwys yn ystod parhad y Contract hwn a bydd yn goroesi pan ddaw i ben neu pan derfynir ef.

## 10. EIDDO'R CLEIENT

10.1 Pan fydd y Cleient, at ddibenion y Contract, yn rhoi Eiddo'r Cleient yn rhad ac am ddim i'r Contractwr, bydd yr eiddo hwnnw'n eiddo i'r Cleient ac yn parhau'n eiddo i'r Cleient. Ni fydd gan y Contractwr, o dan unrhyw amgylchiadau, hawlrwym ar Eiddo'r Cleient, a rhaid i'r Contractwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod hawl y Cleient i eiddo o'r fath yn

ogystal ag eithrio unrhyw hawlrwym o'r fath yn cael eu dwyn i sylw'r holl is-gontractwyr a'r personau eraill sy'n ymdrin â'r Contract.

10.2 Bernir bod unrhyw Eiddo'r Cleient sydd ar gael neu a ddaw i law’r Contractwr fel arall mewn cyflwr da pan ddaw i law gan neu ar ran y Contractwr, oni bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cleient fel arall o fewn saith (7) niwrnod i'w dderbyn.

10.3 Rhaid i'r Contractwr gadw holl Eiddo'r Cleient mewn cyflwr da a dim ond mewn cysylltiad â'r Contract y bydd yn defnyddio eiddo o'r fath ac nid at ddiben arall heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw.

10.4 Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cleient am unrhyw Eiddo'r Cleient sydd dros ben ar ôl i'r Contract gael ei gwblhau a bydd yn cael gwared arnynt yn ôl cyfarwyddiadau'r Cleient.

10.5 Rhaid gwneud iawn am unrhyw wastraffu a fu o Eiddo'r Cleient yn sgil gwaith gwael neu esgeulustod gan y Contractwr neu unrhyw un o Staff y Contractwr neu gyflenwyr. Heb ragfarnu unrhyw un o hawliau neu rwymedïau eraill y Cleient, rhaid i'r Contractwr gyflwyno Eiddo'r Cleient iddo ar gais (boed y rheini wedi eu prosesu neu beidio).

10.6 Rhaid i'r Contractwr sicrhau diogelwch holl Eiddo'r Cleient, tra ym meddiant y Contractwr, naill ai yn ei fangre neu'n rhywle arall yn ystod y broses o gyflawni'r Contract, yn unol â gofynion diogelwch rhesymol y Cleient o bryd i'w gilydd.

10.7 Y Contractwr fydd yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod i unrhyw ddarn o Eiddo'r Cleient oni fydd y Contractwr yn gallu dangos bod unrhyw golled neu ddifrod o'r fath wedi'i achosi gan esgeuluster neu Ddiffyg y Cleient. Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cleient ar unwaith os bydd unrhyw ddiffygion, neu golledion neu ddifrod i Eiddo'r Cleient, a gyflwynwyd at ddibenion y Contract.

**11. CYNALIADWYEDD**

11.1 Rhaid i'r Contractwr, wrth weithio ym Mangre'r Cleient, gyflawni'r Contract yn unol â pholisïau amgylcheddol y Cleient fel y’u hysbysir i’r Contractwr o bryd i'w gilydd ac ymhob achos, bydd yn ymdrechu'n rhesymol -

11.1.1 i arbed ynni, dŵr, coed, papur ac adnoddau eraill;

11.1.2 i leihau gwastraff;

11.1.3 i fynd ati'n raddol i roi'r gorau i ddefnyddio sylweddau sy’n teneuo’r osôn; a

11.1.4 i leihau'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rhyddhau, cyfansoddion organig anweddol a sylweddau eraill sy'n niweidiol i iechyd a'r amgylchedd.

**12. CYDRADDOLDEB**

12.1 Rhaid i’r Contractwr gydymffurfio â’r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y “**Ddeddf 2010**”) ac unrhyw ddeddfwriaeth gydraddoldeb gymwys arall.

12.2 Rhaid i'r Contractwr, wrth berfformio’r Contract, gydymffurfio ag adran 149 o’r Ddeddf 2010 ac mae’n gwarantu ac yn ymgymryd i roi sylw dyledus i’r angen i:

12.2.1 ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi’i wahardd gan y Ddeddf 2010;

12.2.2 hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol (wedi ei diffinio yn y Ddeddf 2010) a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; a

12.2.3 meithrin perthynas dda rhwng personau sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol (wedi ei diffinio yn y Ddeddf 2010) a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

12.3 Heb ragfarn i Amod 12.2 rhaid i'r Contractwr:

12.3.1 gydymffurfio â gorchmynion a chyfarwyddiadau’r Cleient ac unrhyw bolisïau a chodau ymarfer a gyhoeddwyd o dro i dro yn ymwneud â’r Ddeddf 2010; a

12.3.2 rhoi gwybod i'r Cleient yn ddi-oed a chadw’r Cleient yn wybodus ynghylch pob cwyn ac ymchwiliad sydd yn berthnasol i’r Ddeddf 2010 a pherfformiad y Contract .

12.4 Rhaid i'r Contractwr roi i’r Client y fath wybodaeth y gall y Cleient ei hangen yn rhesymol i gydymffurfio â’i ddyletswyddau o dan y Ddeddf 2010 (gan gynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth).

12.5 Mae’r Contractwr yn cytuno i indemnio’r Cleient ac i gadw’r Cleient wedi’i indemnio yn erbyn pob colled, cost, achos neu iawndal sy’n deillio o unrhyw doriad gan y Contractwr o’i rwymedigaethau o dan yr Amod 12 hwn neu mewn cysylltiad â hynny.

**13. AMRYWIO'R GWASANAETHAU**

13.1 Mae'r Cleient yn cadw'r hawl, drwy hysbysu'r Contractwr yn ysgrifenedig, i amrywio ansawdd neu faint y Gwasanaethau. Ni chaiff unrhyw amrywiad, neu addasiad ym Mhris y Contract neu'r amser i gyflawni unrhyw rwymedigaeth o dan y Contract sy'n codi oherwydd addasiad o'r fath, unrhyw effaith, oni chaiff addasiad o'r fath ei gytuno rhwng y partïon.

13.2 O fewn saith (7) niwrnod ar ôl i'r Contractwr gael ei hysbysu o amrywiad yn unol ag Amod 13.1 uchod, rhaid i'r Contractwr gynghori'r Cleient yn ysgrifenedig am unrhyw newid ym Mhris y Contract a/neu'r cyfnod ar gyfer cyflawni unrhyw rwymedigaeth o dan y Contract sy'n angenrheidiol ym marn y Contractwr o ganlyniad i'r amrywiad arfaethedig. Caiff unrhyw ddiwygiad o'r fath ei benderfynu (i'r graddau bod hynny'n bosibl) drwy gyfeirio at y cyfraddau a'r prisiau a nodwyd yn y Dogfennau. I'r graddau ei bod yn amhosibl penderfynu ar ddiwygiad o'r fath, yna bydd y diwygiad yn cael ei benderfynu ar sail deg a rhesymol, gan ystyried cyfraddau, prisiau ac arferion y diwydiant y mae'r Gwasanaethau yn ymwneud â hwy.

13.3 Os bydd y Partïon yn methu â chytuno ar ddiwygiadau a geisiwyd gan y Contractwr o dan Amod 13.2 uchod, yna gall y Cleient naill ai –

13.3.1 dynnu'r hysbysiad i amrywio yn ôl, ac os felly, ni fydd y Contractwr o dan unrhyw rwymedigaeth i weithredu'r amrywiad arfaethedig a bydd y Contract yn parhau fel yr oedd, heb ei newid; neu

13.3.2 rhoi hysbysiad i'r Contractwr i barhau i weithredu'r amrywiad heb gytundeb, ac os felly, bydd y Contractwr yn mynd ati ar unwaith i weithredu'r amrywiad, a bydd ganddo hawl i gael swm teg a rhesymol am unrhyw amser ychwanegol a gaiff ei bennu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Amod 13.2. Os bydd y Partïon yn methu â chytuno ar unrhyw faterion heb eu datrys o ran Pris y Contract a'r amser a gymer i gyflawni'r gwaith sy'n deillio o'r amrywiad o fewn saith (7) niwrnod ar ôl i'r Cleient dderbyn hysbysiad o dan yr Amod 13.3.2 hwn, caiff y naill Barti neu'r llall gyfeirio'r mater neu'r materion sydd heb eu datrys fel dadl i benderfynu arni yn unol ag Amod 45 (Datrys Anghydfodau).

13.4 Bydd yr amrywiad yn dod i rym o'r dyddiad a nodwyd yn y cofnod a lofnodwyd o'r amrywiad ac ni fydd yn cael effaith ôl-weithredol oni ddarperir ar gyfer hynny mewn cofnod o'r fath.

13.5 Rhaid i bob cofnod o amrywiad gael ei ddyddio a'i rifo'n ddilyniannol.

13.6 Oni ddarperir ar gyfer hyn mewn cofnod o amrywiad o'r fath, bydd y Contract yn parhau'n llawn o ran ei rym a'i effaith.

## 14. GWRTHDARO BUDDIANNAU

14.1 Rhaid i'r Contractwr gymryd camau priodol i sicrhau na roddir y Contractwr nac unrhyw aelod o'i Staff mewn sefyllfa lle ceir gwrthdaro gwirioneddol neu lle y gallai fod gwrthdaro gwirioneddol, neu wrthdaro posibl rhwng buddiannau ariannol neu bersonol y Contractwr neu ei Staff a'r dyletswyddau sy'n eiddo i'r Cleient o dan y Contract. Bydd y Contractwr yn datgelu i'r Cleient fanylion llawn unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath a all godi cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl dod yn ymwybodol o'r sefyllfa. Bydd darpariaethau'r Amod 14 hwn yn gymwys yn ystod parhad y Contract ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddynt ddod i ben neu gael eu terfynu.

## 15. PRIS Y CONTRACT

15.1 Wrth ystyried cyflawni rhwymedigaethau'r Contractwr o dan y Contract gan y Contractwr, rhaid i'r Cleient dalu Pris y Contract.

15.2 Os bydd y gost i'r Contractwr wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract yn cynyddu neu'n lleihau o ganlyniad i unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliad newydd sy'n cael ei wneud ar ôl cychwyn Cyfnod y Contract, caiff unrhyw amrywiad ym Mhris y Contract ei asesu ar sail unigol. Ni chaniateir unrhyw amrywiad o'r fath mewn cysylltiad â deddfwriaeth neu reoliadau sy'n dod i rym ar ôl cychwyn Cyfnod y Contract ond a wnaed yn gyhoeddus cyn cychwyn Cyfnod y Contract. Bernir y bydd effaith unrhyw amrywiad o'r fath ar gostau'r Contractwr wedi cael ei chynnwys ym Mhris y Contract.

## 16. TALU A THRETH

16.1 Rhaid i'r Cleient dalu swm i'r Contractwr, ar ben Pris y Contract, sy'n gyfwerth â'r Dreth sy'n daladwy ar werth y Gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r Contract.

16.2 Caiff taliadau eu gwneud mewn arian clir o fewn deng niwrnod ar hugain (30) i dderbyn a chytuno ar anfonebau, a gyflwynir yn fisol mewn ôl-daliadau, am waith a wnaed er boddhad y Cleient.

16.3 Rhaid i bob manyleb gynnwys yr holl gyfeiriadau priodol yn ogystal â dadansoddiad manwl o'r Gwasanaethau ac fe'u hategir gan unrhyw ddogfennaeth arall sy'n ofynnol gan y Cleient i gadarnhau'r anfoneb.

16.4 Pan fydd Contractwr yn cyflwyno is-gontract gyda chyflenwr neu gontractwr er mwyn cyflawni'r Contract, bydd yn peri i amod gael ei gynnwys mewn is-gontract o'r fath sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr dalu'r is-gontractwr o fewn cyfnod penodol, heb fod

yn fwy na deng niwrnod ar hugain (30) o'r dyddiad y daw anfoneb ddilys i law, fel y diffinnir gan ofynion yr is-gontract.

16.5 Caiff treth, pan fo'n briodol, ei dangos ar wahân ar bob anfoneb fel cost net ychwanegol llwyr.

16.6 Gall y Cleient leihau taliad mewn cysylltiad ag unrhyw Wasanaethau y mae'r Contractwr naill ai wedi methu â'u darparu neu wedi'u darparu'n annigonol, heb ragfarn i hawliau a rhwymedïau eraill y Cleient.

**17. ADENNILL SYMIAU SY'N DDYLEDUS**

17.1 Lle bynnag y bo unrhyw swm o arian i'w adennill oddi wrth y Contractwr neu'n daladwy ganddo o dan y Contract (gan gynnwys unrhyw swm y mae'r Contractwr yn agored i'w dalu i'r Cleient o ran unrhyw doriad i'r Contract), gellir tynnu'r swm hwnnw o'r swm sy'n ddyledus bryd hynny, neu a all ddod yn ddyledus ar unrhyw adeg wedyn i'r Contractwr o dan y Contract hwn neu o dan unrhyw gytundeb neu Gontract arall gyda'r Cleient.

17.2 Bydd unrhyw ordaliad i'r Contractwr gan y Cleient, boed o safbwynt Pris y Contract neu Dreth, yn swm o arian y gall y Cleient ei adennill gan y Contractwr.

17.3 Rhaid i'r Contractwr wneud unrhyw daliadau sy'n ddyledus i'r Cleient heb unrhyw ddidyniad boed drwy gyfrwng gwrthgyfrif, gwrth-hawliad, disgownt, lleihad, neu fel arall oni bai fod gan y Contractwr orchymyn llys dilys sy'n gofyn am swm sy'n gyfartal i unrhyw ddidyniad i'w dalu gan y Cleient i'r Contractwr.

**18. AMRYWIO'R PRIS WRTH YMESTYN CYFNOD Y CONTRACT**

18.1 Bydd Pris y Contract yn gadarn am Gyfnod cychwynnol y Contract. Os bydd estyniad yn cael ei ystyried y tu hwnt i Gyfnod y Contract yn unol ag Amod 2.2 ("Cyfnod Estynedig y Contract"), rhaid i'r Cleient a'r Contractwr adolygu Pris y Contract cyn i Gyfnod cychwynnol y Contract ddod i ben.

18.2 Ni chaiff unrhyw gais i gynyddu neu ostwng Pris y Contract yn ystod Cyfnod Estynedig y Contract ei ystyried ond os caiff ei ategu gan fynegai priodol y cytunwyd arno eisoes rhwng y Cleient a'r Contractwr ac wedi ei nodi yn y Dogfennau.

18.3 r ôl cytuno'n ysgrifenedig â'r Cleient, gall y Contractwr gynyddu neu ostwng Pris y Contract a gaiff ei godi am Gyfnod Estynedig y Contract.

## 19. STAFF Y CONTRACTWR

19.1 Ceidw'r Cleient yr hawl o dan y Contract hwn i wrthod rhoi mynediad i unrhyw Fangre’r Cleient, a feddiennir gan neu ar ran y Cleient neu i dynnu caniatâd yn ôl i aros ar unrhyw Fangre’r Cleient:

19.1.1 unrhyw aelod o Staff y Contractwr;

19.1.2 unrhyw berson a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan is-gontractwr, asiant neu was i'r Contractwr;

y byddai rhoi mynediad iddo neu ganiatáu iddo gael mynediad, ym marn y Cleient, yn annymunol.

19.2 Rhaid i'r Contractwr a'i Staff, pan fyddant yn bresennol ar unrhyw Fangre’r Cleient sydd ym meddiant y Cleient neu ar eu rhan, gydymffurfio'n llawn ag unrhyw reolau, rheoliadau a gofynion (gan gynnwys heb gyfyngiad y rhai sy'n ymwneud â threfniadau diogelwch) a all fod mewn grym o bryd i'w gilydd ar gyfer ymddygiad personél pan fyddant yn y Mangreoedd y Cleient hynny. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, wiriadau diogelwch ar y Contractwr a'i Staff.

19.3 Os bydd Contractwr neu ei Staff yn methu â chydymffurfio ag Amod 19.2 uchod, gall y Cleient (y bydd ei benderfyniad yn derfynol ac yn bendant) benderfynu bod methiant o'r fath yn rhagfarnu yn erbyn buddiannau'r Wladwriaeth ac os nad yw'r Contractwr yn cydymffurfio â darpariaethau Amod 19.2 o fewn amser rhesymol a nodir mewn hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth y Cleient, yna gall y Cleient roi terfyn ar y Contract ar yr amod na fydd terfyniad o'r fath yn rhagfarnu neu'n effeithio ar unrhyw hawl i ddwyn achos neu hawl i rwymedi a fydd ar hynny wedi cronni i’r Cleient neu a fydd ar hynny yn cronni i'r Cleient.

19.4 Dylai'r Contractwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd dim un o'r canlynol yn mynd i'r Fangre’r Cleient wrth i'r Contract gael ei gyflawni:

19.4.1 Unrhyw berson (nad yw'n wladolyn un o aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd) sy'n estron, neu'n berson sydd wedi'i ddinasfreinio o fewn ystyr Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 onid yw caniatâd ysgrifenedig y Cleient wedi'i sicrhau ymlaen llaw.

19.5 Os a phryd y'i cyfarwyddir gan y Cleient, rhaid i'r Contractwr roi i'r Cleient restr o enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau y disgwylir y bydd angen iddynt gael mynediad mewn cysylltiad â'r Contract i unrhyw Fangre’r Cleient sydd ym meddiant y Cleient neu ar eu rhan,

gan bennu yn rhinwedd pa ddyletswydd y maent yn gwneud hynny, a chan roi unrhyw fanylion eraill a thystiolaeth arall o adnabyddiaeth a thystiolaeth ategol arall ag y mae ar y Cleient eu hangen yn rhesymol.

19.6 Rhaid i'r Contractwr gymryd y camau y mae'r Cleient yn gofyn yn rhesymol amdanynt i atal personau diawdurdod rhag cael eu derbyn i'r Fangre’r Cleient. Os bydd y Cleient yn rhoi hysbysiad i'r Contractwr nad yw unrhyw berson i gael ei dderbyn neu ei fod i'w symud o'r Fangre’r Cleient neu nad yw i ymwneud â chyflawni'r Contract neu ei fod i gael ei symud o ymwneud â chyflawni'r Contract, rhaid i'r Contractwr gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw ac os bydd y Cleient yn mynnu, rhaid i'r Contractwr roi yn lle unrhyw berson a symudir o dan yr Amod 19 hwn berson arall â chymwysterau addas a sicrhau bod unrhyw bàs a roddwyd i'r person a symudir yn cael ei ildio.

19.7 Bydd penderfyniad y Cleient ynghylch a ddylid derbyn unrhyw berson i'r Fangre’r Cleient neu ei symud oddi yno neu a ddylai person beidio ag ymwneud â chyflawni'r Contract neu a ddylai person gael ei symud o'i ymwneud â chyflawni'r Contract ac ynghylch a yw'r Contractwr wedi darparu'r wybodaeth neu wedi cymryd y camau y mae'r Amod 19 hwn yn eu mynnu neu beidio yn derfynol a phendant.

19.8 Ni fydd gan y Cleient unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw hawliad a wneir neu unrhyw iawndal a ddyfernir mewn perthynas ag afreidedd neu ddiswyddo annheg neu anghyfiawn i unrhyw un o weithwyr cyflogedig y Contractwr mewn perthynas â'u gwasanaeth gyda'r Contractwr sy'n codi o roi mesurau diogelwch y Cleient ar waith.

19.9 Mae'r Contractwr yn cytuno i hysbysu'r Cleient am unrhyw anghydfodau sydd yn yr arfaeth gyda'i weithwyr cyflogedig a allai effeithio ar weithredu'r Gwasanaethau.

## 20. IECHYD A DIOGELWCH

20.1 Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cleient ar unwaith am unrhyw beryglon iechyd a diogelwch a allai godi mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

20.2 Rhaid i'r Cleient hysbysu'r Contractwr o unrhyw beryglon iechyd a diogelwch a allai fodoli neu godi ym Mangre'r Cleient ac a allai effeithio ar y Contractwr wrth gyflawni'r Contract.

20.3 Tra bo ym Mangre'r Cleient, rhaid i'r Contractwr gydymffurfio ag unrhyw fesurau iechyd a diogelwch a weithredir gan y Cleient mewn cysylltiad â Staff a phersonau eraill sy'n gweithio yn y Fangre’r Cleient honno.

20.4 Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cleient ar unwaith os bydd unrhyw ddigwyddiad yn codi wrth gyflawni'r Contract ym Mangre'r Cleient lle bydd y digwyddiad hwnnw'n achosi unrhyw anaf personol neu ddifrod i eiddo a allai arwain at anaf personol.

20.5 Rhaid i'r Contractwr gyflwyno'r holl fesurau angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ("Deddf 1974") etc ac unrhyw ddeddfau, gorchmynion, rheoliadau a chodau ymddygiad eraill sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, a allai fod yn berthnasol i Staff a phersonau eraill sy'n gweithio yn y Fangre’r Cleient wrth gyflawni'r Contract.

20.6 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod ei ddatganiad polisi iechyd a diogelwch (fel sy'n ofynnol yn unol â Deddf 1974) ar gael i Gleient ar gais.

**21. DEDDF LLWGRWOBRWYO**

21.1 Rhaid i'r Contractwr:

21.1.1 gydymffurfio â holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau sydd yn berthnasol i atal llwgrwobrwyo a llygru gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i’r Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 (“**Anghenion Priodol**”);

21.1.2 gadw a chynnal trwy gydol cyfnod y Contract bolisïau a gweithdrefnau ei hun, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithdrefnau digonol o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, i sicrhau cydymffurfiad â’r Anghenion Priodol, ac y bydd yn eu gorfodi lle bod hynny’n briodol;

21.1.3 yn ddi-oed, hysbysu’r Cleient o unrhyw gais neu orchymyn am unrhyw fantais gormodol ariannol neu fantais arall a dderbyniwyd gan y Contractwr mewn perthynas â pherfformiad y Contract;

21.1.4 ar gais y Cleient, ddilysu i'r Cleient yn ysgrifenedig cydymffurfiad â’r Amod 21 hwn.

21.2 Bydd toriad o’r Amod 21 hwn yn cael ei ystyried yn Ddiffyg.

**22. TWYLL**

22.1 Rhaid i'r Contractwr ddiogelu'r arian y mae'r Cleient yn ei gyfrannu at y Contract yn erbyn twyll yn gyffredinol ac, yn benodol, twyll ar ran y Staff, neu gyfarwyddwyr neu gyflenwyr y Contractwr. Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cleient yn ddi-oed os oes ganddo reswm dros amau bod unrhyw dwyll wedi digwydd neu ei fod wrthi'n digwydd neu ei fod yn debygol o ddigwydd.

**23. CYFRINACHEDD**

23.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod mai eiddo'r Cleient, gan ddibynnu ar yr achos, fydd unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a geir gan y Cleient, a'u cyflogeion, eu gweision, eu hasiantau neu isgontractwyr.

23.2 Rhaid i bob Parti:

> 23.2.1 cadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau a ddarperir iddo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan Barti arall o dan y Contract hwn neu cyn hynny, gan gymryd unrhyw fesurau diogelwch rhesymol angenrheidiol i ddiogelu ei wybodaeth gyfrinachol ei hun a chyfrinachau'r fasnach;
>
> 23.2.2 trin yr holl Wybodaeth Gyfrinachol a geir yn gwbl gyfrinachol gan ei diogelu'n briodol, gan ei defnyddio at ddiben y Contract hwn yn unig;
>
> 23.2.3 peidio â datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol i unrhyw berson arall heblaw am ei Staff sydd wedi derbyn rhwymedigaethau cyfrinachedd sy'n gyfystyr â'r Amod 23 hwn y mae angen iddo gael mynediad at wybodaeth neu ddeunyddiau o'r fath mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

23.3 Heb ragfarn i gymhwysiad Amod 23.2.3 y Contract, ni fydd y naill Barti na'r llall yn datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol i unrhyw berson arall o gwbl heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw y Parti fydd yn ei darparu.

23.4 Rhaid i'r Contractwr ddarparu'r holl ragofalon angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pob Gwybodaeth Gyfrinachol yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac na chaiff ei datgelu (heb ganiatâd ysgrifenedig y Cleient yn gyntaf) na'i defnyddio heblaw at ddibenion y Contract hwn gan Staff y Contractwr.

23.5 Heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr uchod, rhaid i'r Contractwr a phob aelod o'i Staff beidio â defnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol er mwyn deisyfu busnes oddi wrth y Cleient, ei gyflogeion, ei weision, ei asiantau neu ei is-gontractwr.

23.6 Lle bydd y Cleient yn credu ei bod yn angenrheidiol, rhaid i'r Contractwr sicrhau bod y Staff neu unrhyw berson arall sy'n ymwneud â'r Contract drwyddo ef, lofnodi cymal cyfrinachedd, ar ffurf a ddewisir gan y Cleient cyn dechrau ar waith mewn cysylltiad â'r Contract.

23.7 Ni fydd darpariaethau'r Amod 23 hwn yn gymwys i unrhyw wybodaeth:

23.7.1 sy'n hysbys i'r cyhoedd neu sy'n dod yn hysbys i'r cyhoedd (heblaw am drwy dorri'r Contract hwn); neu

23.7.2 sydd ym meddiant y Parti sy'n ei chael, heb gyfyngiad o ran ei datgelu, cyn ei chael gan y Parti sy'n ei datgelu; neu

23.7.3 sy'n dod i law trydydd parti a wnaeth gaffael yr wybodaeth yn gyfreithiol nad yw o dan unrhyw rwymedigaeth sy'n gwahardd ei datgelu; neu

23.7.4 a gaiff ei datblygu'n annibynnol heb fynediad at yr Wybodaeth Gyfrinachol; neu

23.7.5 y mae'n rhaid ei datgelu yn unol â rhwymedigaeth statudol, cyfreithiol neu seneddol a osodir ar y Parti sy'n datgelu'r wybodaeth gan gynnwys unrhyw ofynion ar y Cleient i ddatgelu o dan y Côd Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth a gyhoeddwyd gan y Cleient, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ac yn unol ag Amod 26 (Rhyddid Gwybodaeth).

23.8 Ni fydd dim yn yr Amod 23 hwn yn rhwystro'r Contractwr rhag:

23.8.1 datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol y mae'n rhaid ei datgelu drwy orchymyn llys neu unrhyw dribiwnlys cymwys arall neu y mae'n ofynnol ei datgelu gan unrhyw ofyniad cyfreithiol cymwys; neu

23.8.2 datgaelu'r cyfryw Wybodaeth Gyfrinachol ag sy'n angenrheidiol at ddiben cael cyngor cyfreithiol i archwilio neu baratoi cyfrifon y Contractwr ar gyfer ei gynghorwyr cyfreithiol a'i gyfrifyddion, ar yr amod bod y cynghorwyr cyfreithiol a'r cyfrifyddion hynny wedi'u rhwymo gan ddyletswydd broffesiynol tuag at gyfrinachedd.

23.9 Ni fydd dim yn yr Amod 23 hwn yn rhwystro unrhyw Barti rhag defnyddio unrhyw dechnegau, syniadau neu wybodaeth arbenigol a enillir yn ystod y gwaith o gyflawni'r Contract wrth gynnal busnes mewn modd arferol, i'r graddau nad yw hyn yn arwain at ddadlennu Gwybodaeth Gyfrinachol neu'n torri Hawliau Eiddo Deallusol.

23.10 Os bydd y Contractwr yn methu â chydymffurfio â'r Amod 23 hwn, ceidw'r Cleient yr hawl i derfynu'r Contract drwy hysbysu'r Contractwr yn ysgrifenedig ar unwaith.

23.11 Bydd darpariaethau'r Amod 23 hwn yn gymwys yn ystod parhad y Contract ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddo ddod i ben neu gael ei derfynu.

**24. CYHOEDDUSRWYDD, Y CYFRYNGAU AC YMHOLIADAU SWYDDOGOL**

24.1 Rhaid i'r Contractwr beidio â gwneud unrhyw gyhoeddiadau gerbron y wasg na rhoi cyhoeddusrwydd i'r Contract nac i unrhyw ran ohono yn y modd hwnnw heb ganiatâd ysgrifenedig y Cleient.

24.2 Rhaid i'r Contractwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod ei holl Staff yn cydymffurfio ag Amod 24.1.

24.3 Bydd darpariaethau'r Amod 24 hwn yn gymwys yn ystod parhad y Contract ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddo ddod i ben neu gael ei derfynu.

**25. DEDDFWRIAETH DIOGELU DATA - AMOD PROSESU DATA**

25.1 Yn yr Amod 25 hwn, bydd gan “rheolwr data”, “prosesydd data”, “gwrthrych data”, “data bersonol” a “prosesu” yr ystyron a briodolir i'r geiriau “data controller”, “data processor”, “data subject”, “personal data” a “processing” yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Golyga'r term "trydydd gwlad" unrhyw wlad tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("AEE"), neu, mewn achos Contractwr wedi ei leoli o fewn y DU ac os a phan fo'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, unrhyw wlad tu allan i'r DU a'r AEE. Golyga'r term "Data Personol y Cleient" unrhyw ddata bersonol a gaiff ei brosesu gan Gontractwr ar ran Cleient er diben cyflenwi'r Gwasanaethau.

25.2 Mae'r Contractwr yn cydnabod mai'r Cleient yw'r rheolwr data ac mai'r Contractwr yw'r prosesydd data ynghylch Data Personol y Cleient, ac yn cydnabod ymhellach bod Data Personol Cleient:

> 25.2.1 yn ymwneud â gwrthrychau data sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth / gyflogeion / gysylltiadau busnes y Cleient;
>
> 25.2.2 yn cynnwys manylion adnabod personol a chyfeiriadau; manylion dulliau cyfathrebu a manylion cyswllt; manylion addysg ac hyfforddiant; manylion yn ymwneud â chyflogaeth; amgylchiadau teuluol, ffordd o fyw a chymdeithasol; manylion ariannol economaidd ac yswiriant neu fanylion cyswllt busnes; data masnachol (cytundebol, ariannol neu fanc) unrhyw wrthrych data; ac

25.2.3 am gael ei brosesu gan y Contractwr er mwyn cyflenwi'r Gwasanaethau ac am hyd y Cytundeb hwn yn unig neu am unrhyw amser pellach mae'r Partïon ill dau'n cytuno arno'n ysgrifenedig.

25.3 Mae'r Contractwr yn cytuno:

25.3.1 y bydd yn gwneud y prosesu dim ond yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig y Cleient o dro i dro, gan gynnwys fel y maent wedi eu nodi yn y Cytundeb hwn, oni bai ei fod yn ofynnol arno i wneud fel arall yn ôl y gyfraith, yn yr achos hwnnw, lle caniateir hynny yn gyfreithiol, bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cleient o'r fath ofyniad cyfreithiol cyn prosesu;

25.3.2 y bydd yn sicrhau bod unrhyw bersonél sydd wedi'i awdurdodi i brosesu Data Personol y Cleient yn atebol i rwymedigaeth cyfrinachedd yn ymwneud â'r data hwnnw;

25.3.3 gweithredu mesurau technolegol a sefydliadol priodol er mwyn amddiffyn Data Personol y Cleient yn erbyn unrhyw brosesu anghyfreithlon neu sydd heb ei awdurdodi ac yn erbyn dinistrio damweiniol, difrod neu golled, mewn ffordd sy'n galluogi'r Cleient i gydymffurfio gyda'i rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

25.3.4 na fydd yn is-gontractio prosesu unrhyw Ddata Personol y Cleient heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol y Cleient. Bydd y fath gydsyniad ond yn cael ei roi lle bo rhwymedigaethau yn ymwneud â phrosesu Data Personol y Cleient o dan y Cytundeb hwn yn cael eu gosod ar yr is-brosesydd trwy gytundeb. Bydd y Contractwr yn parhau'n hollol atebol i'r Cleient am brosesu unrhyw Ddata Personol y Cleient a wneir gan is-brosesydd wedi'i benodi gan Gontractwr yn unol â'r Cymal hwn;

25.3.5 y bydd yn darparu'r fath wybodaeth a'r fath gymorth i'r Cleient ag y bo'r Cleient yn rhesymol yn eu mynnu ac o fewn y terfynau amser a bennir yn rhesymol gan y Cleient, er mwyn galluogi'r Cleient i gydymffurfio gyda'i rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

25.3.6 pan fydd y Cytundeb hwn yn terfynu neu'n dod i ben, bydd, ar ddewis y Cleient, naill ai'n dychwelyd Data Personol y Cleient yn brydlon ac yn ddiogel neu (oni bai bod angen i'r Contractwr barhau i storio'r data o dan y gyfraith) yn dileu Data Personol y Cleient yn brydlon ac yn ddiogel.

25.3.7 y bydd yn cadw neu'n peri cadw y fath wybodaeth ag sy'n ofynnol i ddangos cydymffurfiad gyda'i rwymedigaethau o dan y Cymal 25 hwn gan gynnwys cofnod llawn a chywir mewn perthynas â phrosesu Data Personol Cleient a bydd, ar rybudd rhesymol, yn gwneud ar gael i'r Cleient unrhyw wybodaeth neu gofnodion a gadwyd gan y Contractwr yn unol â'r Cymal 25 hwn neu yn caniatáu hawl i'r Cleient a'u harchwilwyr a'u hasiantiaid iddynt, ac i wneud copïau ohonynt.

25.3.8 i hysbysu'r Cleient yn syth os, ym marn y Contractwr, bod unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Cleient yn unol â Chymal 25 yn torri unrhyw ddarpariaeth y Ddeddfwriaeth Diogelu Data; ac

25.3.9 na fydd yn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol y Cleient tu allan i'r AEE heb gydsyniad ysgrifenedig flaenorol y Cleient.

25.4 Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cleient heb oedi'n amhriodol wedi iddo ddod yn ymwybodol o unrhyw ddinistriad, golled neu newid, damweiniol neu anghyfreithlon o Ddata Personol y Cleient, neu unrhyw ddatgelu heb awdurdod ohonynt, neu unrhyw fynediad heb awdurdod iddynt.

25.5 Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cleient heb oedi'n amhriodol os bydd yn derbyn gan unrhyw wrthrych data y mae eu data personol yn ffurfio rhan o Ddata Personol y Cleient:

25.5.1 unrhyw gyfathrebiad sy'n ceisio arfer hawliau a roddir i'r gwrthrych data gan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data; neu

25.5.2 unrhyw gwyn neu hawliad am iawndal yn codi o neu'n ymwneud â phrosesu Data Personol y Cleient.

25.6 Oni bai bod awdurdod cymwys yn mynnu ei fod yn gwneud hynny, ni fydd y Contractwr yn gwneud unrhyw daliad neu unrhyw gynnig o daliad i unrhyw wrthrych data mewn ymateb i unrhyw gwyn neu hawliad am iawndal sy'n codi o neu sy'n ymwneud â phrosesu Data Personol y Cleient, heb gytundeb ysgrifenedig flaenorol y Cleient.

25.7 Mae'r Contractwr yn cytuno i indemnio a chadw'r Cleient wedi ei indemnio yn erbyn pob hawliad, treuliad, cost (gan gynnwys costau cyfreithiol rhesymol), iawndal, colledion, archebion a dirwyon rheoleiddiol a ddyfernir yn erbyn neu dalwyd gan y Cleient sy'n codi o ganlyniad i esgeuluster y Contractwr neu unrhyw doriad o delerau'r Cytundeb hwn.

**26. RHYDDID GWYBODAETH**

26.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod y Cleient yn ddarostyngedig i ofynion yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("yr FOIA") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("EIR").

26.2 Mae'r Contractwr yn cydnabod y bydd y Cleient yn gyfrifol am benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt:

26.2.1 a ddylai ddatgelu unrhyw wybodaeth y mae wedi'i chael o dan y Contract neu mewn cysylltiad ag ef i'r graddau ei bod yn ofynnol i'r Cleient ddatgelu'r wybodaeth honno i berson sy'n gwneud cais am ddatgeliad o dan yr FOIA neu'r EIR ("RFI");

26.2.2 a oes unrhyw wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan yr FOIA neu'r EIR.

26.3 Mae'r Contractwr yn cydnabod y gallai'r Cleient, gan weithredu yn unol â Chôd Ymarfer yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar Gyflawni Swyddogaethau'r Awdurdodau Cyhoeddus a gyhoeddir o dan Adran 45 o'r FOIA ("Côd DCA"), fod o dan rwymedigaeth o dan FOIA neu'r EIR i ddatgelu gwybodaeth sy'n ddarostyngedig i RFI:

26.3.1 yn sgil ymgynghori â'r Contractwr a gyflawnir yn unol â Chôd DCA;

26.3.2 heb ymgynghori â'r Contractwr lle nad yw hyn yn ofynnol o dan Gôd DCA.

26.4 Lle'r ymgynghorir â'r Contractwr yn unol â chymal 28.3.1 yna rhaid i'r Contractwr ymateb gydag unrhyw sylwadau cyn pen pum (5) niwrnod gwaith.

26.5 Rhaid i'r Contractwr beidio ag ymateb yn uniongyrchol i RFI o dan unrhyw amgylchiadau onid awdurdodir ef yn unswydd i wneud hynny gan y Cleient.

26.6 Rhaid i'r Contractwr ddarparu'r holl gymorth angenrheidiol ag y mae ar y Cleient ei angen yn rhesymol i ymateb i RFI trwy ddarparu'r cyfryw wybodaeth a mynediad at ddogfennau a chofnodion ag y mae ar y Cleient eu hangen yn rhesymol er mwyn ateb cais datgelu o fewn yr amser am gydymffurfio a nodir yn Adran 10 o'r FOIA.

26.7 Bydd darpariaethau'r Amod 26 hwn yn gymwys yn ystod parhad y Contract hwn ac am gyfnod amhendant ar ôl iddo ddod i ben neu ar ôl iddo gael ei derfynu.

**27. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998**

27.1 Rhaid i'r Contractwr sicrhau, a rhaid iddo ddefnyddio ymdrechion rhesymol i sicrhau y bydd ei Staff, bob amser, yn ymddwyn mewn ffordd sy'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn o fewn ystyr Adran 1 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r Contractwr yn cytuno i indemnio'r Cleient ac i sicrhau bod y Cleient yn parhau i gael ei indemnio yn erbyn pob colled, cost, achos neu ddifrod sy'n deillio o unrhyw doriad gan y Contractwr o'i rwymedigaethau o dan yr Amod 27 hwn neu mewn cysylltiad â hynny.

**28. HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL**

28.1 Bydd yn un o amodau'r Contract hwn na fydd y Gwasanaethau, ac eithrio i'r graddau bod y Gwasanaethau yn ymgorffori dyluniadau a ddarperir gan y Cleient, yn amharu ar Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti a rhaid i'r Contractwr **indemnio** yn llawn y Cleient yn erbyn pob achos, achos cyfreithiol, cais, hawliad, colled, cost, taliad a thraul y gallai'r Cleient eu dioddef neu eu hysgwyddo o ganlyniad i unrhyw doriad o'r Amod 28 hwn neu mewn cysylltiad â hynny.

28.2 Rhaid i'r Contractwr gael cymeradwyaeth y Cleient cyn defnyddio unrhyw ddeunydd mewn perthynas â chyflawni'r Contract sydd neu a allai fod yn ddarostyngedig i Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti. Lle y rhoddir y gymeradwyaeth honno gan y Cleient, rhaid i'r Contractwr sicrhau bod perchennog yr hawliau yn rhoi trwydded heb fod yn drwydded neilltuol i'r Cleient, neu, os yw ei hun yn drwydded i'r hawliau hynny, yn rhoi i'r Cleient is-drwydded awdurdodedig i ddefnyddio, atgynhyrchu, newid, addasu a gwella'r deunydd yn ddarostyngedig i'r hawliau hynny. Bydd y drwydded honno yn barhaol ac ni ellir ei hawlio yn ôl a chaiff ei rhoi heb unrhyw gost i'r Cleient.

28.3 Rhaid i'r holl Hawliau Eiddo Deallusol mewn unrhyw fanylebau, cyfarwyddiadau, planiau, lluniadau, patentau, patrymau, modelau, dyluniadau, neu unrhyw ddeunydd arall:

28.3.1 sydd wedi'u cyflwyno i'r Contractwr neu sydd wedi'u darparu iddo gan y Cleient yn parhau yn eiddo i'r Cleient.

28.3.2 sydd wedi'u paratoi gan neu ar gyfer y Contractwr i'w defnyddio, neu gan fwriadu eu defnyddio, mewn perthynas â chyflawni'r Contract hwn drwy hyn wedi'u haseinio i'r Cleient a'u breinio ynddi yn llwyr, a (heb ragfarn i Amod 23 (Cyfrinachedd)) rhaid i'r Contractwr beidio a rhaid iddo sicrhau bod ei Staff yn peidio (ac eithrio i'r graddau sy'n angenrheidiol i weithredu'r Contract hwn) heb gymeradwyaeth y Cleient ymlaen llaw â defnyddio na datgelu unrhyw Hawliau Eiddo

Deallusol o'r fath nac unrhyw wybodaeth arall (p'un a yw'n berthnasol i'r Contract hwn neu beidio) y gallai'r Contractwr eu cael yn unol â'r Contract hwn neu oherwydd y Contract hwn, ac eithrio gwybodaeth sy'n perthyn i'r cyhoedd heblaw trwy dorri'r ddarpariaeth hon, ac yn benodol (ond heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr uchod) rhaid i'r Contractwr beidio â chyfeirio at y Cleient na'r Contract mewn unrhyw hysbyseb heb gymeradwyaeth y Cleient ymlaen llaw.

28.4 Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cleient ar unwaith os gwneir unrhyw gais neu hawliad neu os caiff achos ei ddwyn yn erbyn y Contractwr am doriad neu doriad honedig unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract. Rhaid i'r Contractwr ar ei draul ei hun gynnal unrhyw ymgyfrethiad sy'n deillio o hynny a'r holl negodiadau mewn perthynas ag ef ar yr amod bob amser bod y Contractwr yn ymgynghori â'r Cleient ar bob mater perthnasol sy'n codi wrth gynnal unrhyw ymgyfrethiad a negodiadau a rhaid iddo, wrth wneud hynny, roi sylw dyledus a phriodol i fuddiannau'r Cleient.

28.5 Rhaid i'r Cleient ar gais y Contractwr roi pob cymorth rhesymol i'r Contractwr er mwyn dadlau unrhyw gais neu hawliad a wneir neu unrhyw achos a ddygir yn erbyn y Cleient neu'r Contractwr am doriad neu doriad honedig unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn perthynas â chyflawni'r Contract a rhaid ei ad-dalu iddo am yr holl gostau a'r treuliau (gan gynnwys costau cyfreithiol a thaliadau ar sail cyfreithiwr a chleient ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) a dynnir wrth wneud hynny.

28.6 Rhaid i'r Cleient beidio â gwneud unrhyw addefiadau a allai ragfarnu amddiffyn neu setlo unrhyw gais, hawliad neu achos am doriad neu doriad honedig unrhyw Hawl Eiddo Deallusol gan y Cleient neu'r Contractwr mewn perthynas â chyflawni'r Contract.

28.7 Os bydd cais, hawliad neu achos am doriad neu doriad honedig unrhyw Hawl Eiddo Deallusol yn cael ei wneud gyda'r Contract neu os yw'n debygol y cânt eu gwneud ym marn resymol y Contractwr, rhaid i'r Contractwr ar ei draul ei hun ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cleient (heb ei ddal yn ôl yn afresymol neu ei ohirio) naill ai:

28.7.1 addasu unrhyw rai o'r Gwasanaethau neu bob un o'r Gwasanaethau heb leihau ansawdd yr uchod na'u ffitrwydd at eu diben, neu roi yn eu lle gwasanaethau amgen o ansawdd gyfatebol a ffitrwydd at eu diben, er mwyn osgoi toriad neu doriad honedig, ar yr amod y bydd y Contract hwn yn gymwys *mutatis mutandis* i'r Gwasanaethau hynny a addaswyd neu i'r Gwasanaethau a roddwyd yn eu lle; neu

28.7.2 caffael trwydded i ddefnyddio'r Hawliau Eiddo Deallusol sy'n destun y toriad neu'r toriad honedig, ar delerau sy'n dderbyniol i'r Cleient.

28.8 Ni fydd darpariaethau blaenorol yr Amod 28 hwn yn gymwys i'r graddau y mae unrhyw gais neu hawliad neu achos yn ymwneud ag:

28.8.1 unrhyw ddefnydd gan neu ar ran y Cleient o Wasanaethau mewn cyfuniad ag unrhyw eitem nad yw'n cael ei chyflenwi neu ei hawdurdodi gan y Contractwr (a fydd yn ymddwyn yn rhesymol wrth roi'r awdurdodiad hwnnw), lle mae'r defnydd hwnnw o'r Gwasanaethau yn uniongyrchol yn achosi'r cais, yr hawliad neu'r achos; neu

28.8.2 defnydd gan y Cleient o'r Gwasanaethau mewn ffordd na chesglir mohoni yn rhesymol o'r fanyleb; neu

28.8.3 gwrthodiad afresymol y Cleient i dderbyn Gwasanaethau wedi'u haddasu neu wasanaethau eraill yn eu lle yn unol ag Amod 28.7.1 uchod.

28.9 Os yw'r Contractwr wedi manteisio ar yr hawliau i addasu neu i amnewid Gwasanaethau neu i gaffael trwydded a thrwy arfer yr hawliau a grybwyllwyd wedi osgoi unrhyw gais, hawliad neu achos am doriad, yna ni fydd gan y Contractwr unrhyw atebolrwydd pellach o dan yr Amod 28 hwn mewn perthynas â'r cais, yr hawliad neu'r achos a grybwyllwyd.

28.10 Os nad yw addasiad neu amnewidiad yn unol ag Amod 28.7.1 uchod yn bosibl neu er mwyn osgoi'r toriad ac os nad yw'r Contractwr wedi llwyddo i gaffael trwydded yn unol ag Amod 28.7.2, bydd Amod 28.1 yn gymwys.

28.11 Mae'r uchod yn datgan atebolrwydd llwyr y Contractwr mewn perthynas â thorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

28.12 Pan fydd y Contract yn cael ei derfynu rhaid i'r Contractwr ddychwelyd i'r Cleient yn ddi-oed yr holl ddeunyddiau, gwaith neu gofnodion a ddelir, gan gynnwys unrhyw gyfryngau wrth gefn.

28.13 Bydd darpariaethau'r Amod 28 hwn yn gymwys yn ystod parhad y Contract hwn ac am gyfnod amhendant ar ôl iddo gael ei derfynu neu ar ôl iddo ddod i ben sut bynnag y bydd hynny yn codi.

## 29. INDEMNIAD AC YSWIRIANT

29.1 Rhaid i'r Contractwr **indemnio'r** Cleient, a'u gweithwyr cyflogedig, eu gweision a'u hasiantau neu eu his-gontractwyr a pharhau i'w hindemnio, yn erbyn pob achos, cais, hawliad, trafodion, difrod, hawliad, cost (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau cyfreithiol), traul ac unrhyw rwymedigaethau eraill sy'n deillio o'r Contract neu mewn cysylltiad â'r Contract a pherfformiad y Contractwr mewn perthynas ag unrhyw farwolaeth neu anaf personol, neu golled neu ddifrod i eiddo a achosir yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol gan unrhyw weithred neu hepgoriad ar ran y Contractwr neu ei Staff.

29.2 Rhaid i'r Contractwr **indemnio** ymhellach y Cleient, a'u gweithwyr cyflogedig, eu gweision, eu hasiantau neu eu his-gontractwyr a pharhau i'w hindemnio yn erbyn unrhyw wariant sy'n ymwneud â thrwsio'r mangreoedd Cleient neu amnewid cyfarpar a achosir o ganlyniad i esgeulustod neu ddiffyg ar ran y Contractwr neu ei Staff.

29.3 Ni fydd yr indemniad yn Amod 29.1 yn gymwys i achos, cais, difrod, hawliad, trafodion, cost, traul ac unrhyw rwymedigaethau eraill sy'n deillio o farwolaeth neu anaf personol personau na chyflogir mohonynt gan y Contractwr na cholled neu ddifrod i eiddo o dan berchnogaeth personau na chyflogir mohonynt gan y Contractwr i'r graddau bod y farwolaeth neu'r anaf hwnnw neu'r golled neu'r difrod i eiddo yn cael eu hachosi trwy weithred neu hepgoriad bwriadol y Cleient neu unrhyw rai o'u gweithwyr cyflogedig, eu gweision, eu hasiantau neu eu his-gontractwyr. At ddibenion yr Amod 29.3 hwn ystyrir bod person yn cael ei gyflogi gan y Contractwr os oedd wedi'i gyflogi ar y dyddiad neu'r dyddiadau y bu iddo ddioddef marwolaeth neu anaf neu golled neu ddifrod i'w heiddo.

29.4 Rhaid i'r Contractwr (i'r graddau y mae polisïau yswiriant o'r fath ar gael yn gyffredinol) sicrhau a chadw gydag yswiriwr cydnabyddedig sy'n cynnal busnes yn yr Undeb Ewropeaidd bolisi neu bolisïau yswiriant sy'n darparu'r lefel o gwfert a bennir yn y Dogfennau neu os nad oes dim, lefel ddigonol o gwfert mewn perthynas â'r holl risgiau a ysgwyddir o bosibl gan y Contractwr yn deillio o'r ffordd mae'r Contractwr yn cyflawni'r Contract, gan gynnwys (heb gyfyngiad) marwolaeth neu anaf personol neu golled neu ddifrod i eiddo. Bydd y polisïau hynny yn cynnwys y canlynol (ond ni fyddant yn gyfyngedig iddynt):

> 29.4.1 cwfert mewn perthynas ag unrhyw golled ariannol sy'n deillio o unrhyw gyngor a roddwyd neu yr hepgorwyd ei roi gan y Contractwr; a

29.4.2 yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cynhyrchion i gynnwys unrhyw rwymedigaethau (p’un a ydynt yn codi mewn contract, tort neu fel arall) sydd ganddo i’r Cleient o dan y Contract gan gynnwys yswiriant am golled neu ddifrod i Fangreoedd y Cleient neu unrhyw eiddo sydd gan y Cleient o bryd i’w gilydd yng nghadwraeth neu reolaeth y Contractwr,

yn y swm o heb fod yn llai na £500,000 am unrhyw un digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig yn deillio o’r un digwyddiad a heb eu cyfyngu, oni chytunir fel arall gan y Cleient yn ysgrifenedig. Rhaid i’r yswiriant hwnnw gael ei godi gan y Contractwr yng nghyd enwau’r Contractwr a’r Cleient er gwaethaf y ffaith y bydd y Contractwr yn gyfan gwbl gyfrifol am dalu’r premiwm yswiriant gan gynnwys trethi cysylltiedig ac unrhyw daliadau broceriaeth.

29.5 Er mwyn osgoi amheuaeth, os gwrthodir yswiriant neu os cynigir ef yn unig yn ddarostyngedig i amodau beichus neu anarferol oherwydd record hawliadau’r Contractwr neu unrhyw reswm arall sy’n benodol i’r Contractwr, ni chymerir bod hyn yn golygu nad yw yswiriant o’r math hwnnw ar gael fel rheol.

29.6 Rhaid i’r Contractwr ddal yswiriant atebolrwydd cyflogwr mewn perthynas â Staff yn unol ag unrhyw ofyniad cyfreithiol sydd mewn grym am y tro.

29.7 Rhaid i'r Contractwr gyflwyno i'r Cleient, ar ei gais, dystiolaeth bod yr holl bolisïau yswiriant y cyfeirir atynt yn yr Amod 29 hwn yn cael eu cynnal ar ffurf llythyr brocer neu ar fformat tebyg, ynghyd â derbynebau neu dystiolaeth arall bod y premiwm olaf sy'n ddyledus wedi'i dalu drwy hynny.

29.8 Ni fydd telerau unrhyw yswiriant neu faint y cwfert yn rhyddhau'r Contractwr o unrhyw rwymedigaethau o dan y Contract. Cyfrifoldeb y Contractwr fydd penderfynu faint o gwfert yswiriant fydd yn ddigonol i alluogi'r Contractwr i fodloni unrhyw rwymedigaeth y cyfeirir ato o dan Amodau 29.1 a 29.2.

29.9 Lle bo'n berthnasol i'r Amod 29 hwn, rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cleient yn ddi-oed os daw'n ymwybodol o unrhyw ffaith neu fater a allai olygu bod y Cleient yn agored i'w erlyn.

## 30. CONTRACTWR ARALL

30.1 Mae'r Cleient yn cadw'r hawl heb dynnu atebolrwydd i'r Contractwr i ddefnyddio Contractwr arall ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod y bydd y Contract hwn mewn grym oherwydd anallu'r Contractwr i ddarparu unrhyw un o'r Gwasanaethau er boddhad y Cleient am unrhyw reswm y tu allan i reolaeth y Cleient neu fod y Contractwr yn torri unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract hwn.

30.2 Yn unol ag Amod 5.8, os tynnir costau gan y Cleient sy'n fwy na Phris y Contract o ganlyniad i ddefnyddio Contractwr arall, gall y Cleient, yn ôl ei ddisgresiwn, ethol bod y costau hynny'n cael eu talu gan y Contractwr.

## 31. TERFYNU

31.1 Gall y Contractwr derfynu'r Contract drwy hysbysu'r Cleient yn ysgrifenedig ar unwaith :

31.1.1 lle bo'r Contractwr yn gweld newid yn ei reolaeth, o fewn ystyr Adran 1124 o Ddeddf Treth Chorfforaeth 2010, sy'n cael effaith niweidiol a sylweddol ar y modd y caiff y Contract ei gyflawni; neu

31.1.2 lle bo'r Contractwr yn unigolyn neu'n ffyrm ac os cyflwynir deiseb ar gyfer methdaliad y Contractwr, neu os gwneir gorchymyn methdaliad troseddol yn erbyn y Contractwr neu unrhyw bartner yn y ffyrm, neu os bydd y Contractwr neu unrhyw bartner yn y ffyrm yn gwneud unrhyw gyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr neu er eu budd, neu'n gwneud unrhyw drawsgludiad neu aseiniad er budd credydwyr, neu os penodir gweinyddydd i reoli materion y Contractwr neu'r ffyrm; neu

31.1.3 lle bo'r Contractwr yn unigolyn, os bydd yn marw neu oherwydd salwch neu analluogrwydd (boed yn feddyliol neu'n gorfforol) yn analluog o reoli ei faterion ei hun neu ei fod yn glaf o dan unrhyw ddeddfwriaeth iechyd meddwl; neu

31.1.4 lle bo'r Contractwr yn gwmni, os bydd y cwmni'n gwneud penderfyniad am ddirwyn i ben neu ddiddymu (heblaw at ddibenion uno neu ail-greu dilys ac yn sgil hynny) neu, os bydd cais yn cael ei wneud am orchymyn gweinyddu, neu os bydd cyfarfod ei gyfarwyddwyr neu ei aelodau'n penderfynu gwneud cais am orchymyn gweinyddu mewn cysylltiad ag ef neu os bydd unrhyw barti arall yn rhoi neu'n nodi hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddydd iddo neu os caiff gweinyddydd o'r fath ei benodi, neu os bydd y llys yn gwneud gorchymyn dirwyn-i-ben, neu os bydd y

cwmni'n gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr, neu os penodir derbynnydd gweinyddol, derbynnydd, rheolwr neu oruchwyliwr gan gredydwr neu gan y llys, neu os cymerir meddiant am unrhyw ran o'i eiddo o dan delerau arwystl sefydlog neu ansefydlog; neu

31.1.5 lle bo'r Contractwr yn methu â thalu ei ddyledion o fewn ystyr Adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986; neu

31.1.6 unrhyw ddigwyddiad tebyg a ddigwydd o dan gyfraith unrhyw awdurdodaeth arall y mae'r Contractwr yn ddarostyngedig iddi.

31.2 O ran terfynu o ganlyniad i newid i'r drefn reoli, dim ond o fewn chwe (6) mis ar ôl i'r newid i'r drefn reoli ddigwydd y gall y Cleient arfer ei hawl o dan Amod 31.1 ac ni fydd ganddo hawl i wneud hynny lle y mae wedi cytuno ymlaen llaw i'r newid penodol mewn trefn reoli sy'n digwydd.

31.3 Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cleient yn ysgrifenedig yn ddi-oed os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir yn Amod 31.1 uchod yn codi.

31.4 Rhaid i'r Cleient derfynu'r Contract, neu derfynu darpariaeth unrhyw ran o'r Contract, drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractwr a ddaw i rym yn ddi-oed os bydd y Contractwr yn euog o Ddiffyg ac:

31.4.1 os nad yw'r Contractwr wedi gwneud iawn am y Diffyg i raddau sy'n boddhau'r Cleient, a hynny o fewn deng niwrnod ar hugain (30), neu unrhyw gyfnod arall a bennir gan y Cleient, ar ôl cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r Diffyg ac yn gwneud cais i iawn gael ei wneud am y Diffyg hwnnw; neu

31.4.2 os nad oes modd gwneud iawn am y Diffyg; neu

31.4.3 os yw'r Diffyg yn torri'r Contract yn sylfaenol;

31.5 Os caiff data a drosglwyddir neu a brosesir mewn cysylltiad â'r Contract, ei golli neu ei ddiraddio i'r graddau fel nad oes modd ei ddefnyddio, a hynny oherwydd Diffyg ar ran y Contractwr, y Contractwr fydd yn gyfrifol am dalu'r gost o ail-greu'r data hwnnw a rhaid iddo ddarparu credyd llawn o safbwynt unrhyw gost a godir am ei drosglwyddo.

## 32. EFFAITH TERFYNU O GANLYNIAD I DDIFFYG

32.1 Pan gaiff y Contract ei derfynu yn unol ag Amod 31, neu o ganlyniad i Ddiffyg neu dorri unrhyw rwymedigaeth arall o dan y Contract, ar hynny, heb ragfarn i unrhyw un o'i hawliau eraill; caiff y Cleient ei hun gyflawni'r Gwasanaethau neu sicrhau bod trydydd parti yn cyflawni'r Gwasanaethau, ac at ddibenion hynny (felly gan wneud lwfans teg a phriodol mewn unrhyw daliad a roddir i'r Contractwr wedi hynny) gan ddefnyddio'r holl ddeunyddiau, cyfarpar ac offer yn y Fangre sy'n eiddo i'r Contractwr, ac ni fydd y Cleient yn gorfod gwneud unrhyw daliad pellach i'r Contractwr nes bydd y Gwasanaethau wedi'u cyflawni yn unol â gofynion y Contract, a bydd ganddo hawl i ddidynnu unrhyw gostau ychwanegol a dynnwyd gan y Cleient wedi hynny o'r swm sy'n daladwy i'r Contractwr (gan gynnwys costau'r Cleient ei hun). Os bydd cyfanswm y costau ychwanegol hynny i'r Cleient yn fwy na'r swm (os o gwbl) sy'n ddyledus i'r Contractwr, caiff y Cleient adfer y gweddill gan y Contractwr.

## 33. TORRI'R CONTRACT

33.1 Yn ogystal â hawliau'r Cleient i derfynu o dan Amod 31, bydd gan y Cleient hawl i derfynu'r Contract hwn drwy roi dim llai na deng niwrnod ar hugain (30) o rybudd i'r Contractwr i'r perwyl hwnnw.

33.2 Ar ôl cael hysbysiad o dan Amod 33.1, bydd gan y Contractwr hawl i gael taliad cydnabyddiaeth teg a rhesymol am y cyfryw ran o'r Gwasanaethau y mae wedi'u cwblhau neu eu dechrau ac nad yw wedi cael tâl mewn cysylltiad â hwy, ac am unrhyw gostau neu rwymedigaethau a dynnir i drydydd partïon o ganlyniad i unrhyw ymrwymiad di-alw'n ôl a wneir wrth gyflawni'r Contract, i'r graddau bod y Contractwr yn gallu darparu tystiolaeth i lefel sy'n boddhau'r Cleient yn rhesymol i gefnogi unrhyw symiau y bydd yn eu hawlio.

33.3 Ar ôl cael hysbysiad o dan Amod 33.1, rhaid i'r Contractwr ar unwaith roi'r gorau i gyflawni'r Gwasanaethau a rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i liniaru ei gostau a'i golledion a thynnu'n ôl o unrhyw ymrwymiadau i drydydd partïon mewn perthynas â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.

33.4 Ar ôl terfynu o dan Amod 33.1, ni fydd y Cleient yn atebol i dalu unrhyw swm sydd, o'i ychwanegu at y symiau a dalwyd neu sy'n ddyledus i'r Contractwr o dan y Contract, yn fwy na'r cyfanswm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Contractwr pe na fyddai'r Contract wedi'i derfynu cyn i Gyfnod y Contract gwreiddiol ddod i ben.

## 34. EFFAITH TERFYNU YN GYFFREDINOL

34.1 Ni fydd terfynu o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract yn rhagfarnu nac yn effeithio ar unrhyw hawl i ddwyn achos neu hawl i rwymedi a fydd wedi cronni neu a fydd ar hynny yn cronni i'r Cleient ac ni fydd yn effeithio ar weithrediad parhaol unrhyw rwymedigaeth a ddatgelir i barhau y tu hwnt i derfynu'r Contract neu pan ddaw y contract i ben.

## 35. TARFU

35.1 Wrth i'r Contractwr gyflawni'r Contract, rhaid iddo gymryd gofal rhesymol i sicrhau nad yw'n tarfu ar weithrediadau eraill y Cleient, ei weision, asiantau, ei gyflogeion, nac unrhyw gontractwr arall a gyflogir gan y Cleient.

35.2 Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cleient yn ddi-oed os bydd ei Staff ei hun neu gyflenwyr y Contractwr yn gweithredu'n ddiwydiannol neu fod posibilrwydd y byddant yn gweithredu'n ddiwydiannol, sy'n debygol o effeithio ar allu'r Contractwr ar unrhyw adeg i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.

35.3 Os bydd y Staff neu gyflenwyr y Contractwr yn gweithredu'n ddiwydiannol, rhaid i'r Contractwr geisio cymeradwyaeth y Cleient i'w gynigion i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract. Os ystyrir bod cynigion y Contractwr yn annigonol neu'n annerbyniol gan y Cleient, mae'n bosibl y caiff y Contract ei derfynu gan y Cleient drwy hysbysiad ysgrifenedig a ddaw i rym yn ddi-oed.

35.4 Os na fydd y Contractwr yn gallu cyflawni unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract dros dro o ganlyniad i gyfarwyddyd y Cleient yn arwain at darfu ar fusnes arferol y Contractwr, bydd y Cleient yn cymeradwyo lwfans priodol ar ffurf ymestyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer cyflawni'r rhwymedigaethau yr effeithir arnynt.

## 36. ASEINIO AC IS-GONTRACTIO

36.1 Rhaid i’r Contractwr beidio ag aseinio, morgeisio, codi ffi na throsglwyddo unrhyw hawliau neu rwymedigaethau eraill o dan y Contract hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw.

36.2 Rhaid i’r Contractwr beidio ag is-gontractio unrhyw ran o'r Contract heb ganiatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw. Ni fydd is-gontractio unrhyw ran o'r Contract yn rhyddhau'r Contractwr o unrhyw rwymedigaeth neu ddyletswydd sydd i'w phriodoli iddo o dan y Contract.

36.3 Rhaid i'r Contractwr roi i'r Cleient restr o'r holl bersonél a gymerir ymlaen gan ei is-gontractwyr ac unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i'r rhestr a rhaid iddo sicrhau y perchir ac y cydymffurfir â holl ofynion eraill Amod 19 (o ran Staff y Contractwr) gan unrhyw is-gontractwr.

36.4 Pan fo'r Cleient wedi rhoi caniatâd i is-gontractau gael eu sefydlu, rhaid i'r Contractwr anfon copïau o bob is-gontract at y Cleient yn ddi-oed ar ôl ei lunio.

36.5 Ar ôl i'r Cleient roi hysbysiad i'r Contractwr, gall aseinio, cyfnewid neu waredu mewn ffordd arall ei ymrwymiadau a'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn neu unrhyw ran arall wedi hynny i awdurdod contractio yn y DU fel sydd wedi'i ddiffinio yn Rheoliad 3 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 ar yr amod na fydd unrhyw aseiniad, cyfnewidiad neu warediad fel arall yn cynyddu'r baich ar rwymedigaethau'r Contractwr o dan y Contract hwn.

## 37. FORCE MAJEURE

37.1 At ddiben yr Amod 37 hwn, ystyr "Force Majeure" yw unrhyw ddigwyddiad neu achlysur sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y Parti dan sylw, ac nad yw'n bosibl ei briodoli i unrhyw weithred neu fethiant i gymryd camau ataliol gan y Parti dan sylw, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) rheoliadau llywodraethol, tân, llifogydd neu unrhyw argyfwng. Nid yw'n cynnwys unrhyw weithredu diwydiannol sy'n digwydd o fewn sefydliad y Contractwr neu o fewn sefydliad is-gontractwr.

37.2 Ni fydd y naill Barti na'r llall yn atebol i'w gilydd am unrhyw oedi neu fethiant i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract (heblaw am dalu arian) os bydd oedi neu fethiant o'r fath yn deillio o ddigwyddiad Force Majeure. Rhaid i bob Parti wneud pob ymdrech rhesymol i barhau i gyflawni ei rwymedigaethau drwy hyn am hyd digwyddiad Force Majeure o'r fath. Fodd bynnag, os bydd digwyddiad o'r fath yn rhwystro'r naill Barti neu'r llall rhag cyflawni ei holl rwymedigaethau o dan y Contract am gyfnod sy'n hwy na chwe (6) mis, caiff y naill Barti neu'r llall derfynu'r Contract drwy hysbysiad ysgrifenedig a ddaw i rym yn ddi-oed.

37.3 Bernir bod unrhyw fethiant gan y Contractwr wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract sy'n deillio o unrhyw fethiant neu oedi gan asiant, is-gontractwr neu gyflenwr i'w briodoli i Force Majeure, a hynny yn unig, ac i'r graddau bod yr asiant, yr is-gontractwr neu gyflenwr ei hun yn cael ei lesteirio gan Force Majeure rhag cydymffurfio â rhwymedigaeth i'r Contractwr.

37.4 Os bydd y naill Barti neu'r llall yn dod yn ymwybodol o amgylchiadau Force Majeure sy'n arwain at neu sy'n debygol o arwain at unrhyw fethiant neu oedi ar ei ran, rhaid iddo hysbysu'r llall ar unwaith drwy gyfrwng y dull mwyaf diymdroi sydd ar gael bryd hynny a rhaid iddo hysbysu'r llall o'r cyfnod y rhagwelir y bydd unrhyw fethiant neu oedi o'r fath yn parhau.

37.5 Er mwyn osgoi amheuaeth, datgenir yn ddigamsyniol drwy hyn mai'r unig ddigwyddiadau fydd yn osgoi atebolrwydd am fethiant neu oedi wrth gyflawni'r Contract fydd unrhyw ddigwyddiad sy'n gymwys ar gyfer Force Majeure.

**38. CWMPAS Y CONTRACT**

38.1 Ar bob adeg mewn cysylltiad â'r Contract, rhaid i'r Contractwr fod yn gontractwr annibynnol ac ni fydd dim yn y Contract yn creu perthynas o asiantaeth neu bartneriaeth neu fenter ar y cyd fel rhwng y Contractwr a'r Cleient ac yn unol â hynny, ni chaiff y Contractwr hawl i rwymo'r Cleient.

38.2 Rhaid i'r Contractwr beidio â dweud na gwneud (a rhaid iddo sicrhau nad yw ei Staff yn dweud nac yn gwneud) dim a allai arwain unrhyw berson arall i gredu bod y Contractwr yn gweithredu fel asiant i'r Cleient.

38.3 Nid oes dim yn y Contract hwn yn gosod unrhyw rwymedigaeth ar y Cleient mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth a dynnir gan y Contractwr tuag at unrhyw berson arall ond rhaid peidio â chymryd bod hyn yn atal neu yn cyfyngu unrhyw rwymedigaeth sydd gan y Cleient tuag at y Contractwr a all godi yn rhinwedd naill ai toriad ar y Contract hwn neu unrhyw esgeulustod ar ran y Cleient, ei gyflogeion, ei weision, ei asiantau neu is-gontractwyr.

**39. HYSBYSIADAU**

39.1 Oni nodir yn ddigamsyniol wahanol o fewn y Contract, ni fydd unrhyw hysbysiad na gohebiaeth gan un Parti i'r llall yn ddilys o dan y Contract, oni chyflwynir ef yn ysgrifenedig gan neu ar ran y Parti dan sylw.

39.2 Rhaid i unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall a roddir gan y naill Barti neu'r llall fod mewn llythyr (a anfonir drwy law, post, post cofrestredig neu gan y gwasanaeth danfon cofnodedig), ffacs neu bost electronig (wedi'i gadarnhau ymhob achos gan lythyr). Rhaid i lythyrau o'r fath gael eu cyfeirio at y Parti arall yn y cyfeiriad a nodwyd yn y Dogfennau neu unrhyw gyfeiriad arall a all y naill Barti neu'r llall ei enwebu i'r llall o bryd i'w gilydd.

39.3 Ar yr amod na fydd gohebiaeth berthnasol yn cael ei dychwelyd am nad oedd modd ei danfon, bydd yr hysbysiad neu'r ohebiaeth yn cael dau (2) ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y cafodd y llythyr ei bostio, neu bedair (4) awr yn achos post electronig neu ffacs neu'n gynt lle bydd y Parti arall yn cydnabod ei fod wedi derbyn llythyr, ffacs neu bost electronig o'r fath.

**40. GWARANTIAD**

40.1 Mae'r Contractwr yn gwarantu i'r Cleient bod ganddo'r statws a'r awdurdodiad corfforaethol angenrheidiol i ymuno â'r Contract ac i gael ei rwymo gan ei delerau.

40.2 Mae'r Contractwr yn gwarantu i'r Cleient nad yw'n diffygdalu o ran talu unrhyw drethi dyledus a thaladwy neu wrth ffeilio, cofrestru neu gofnodi unrhyw ddogfen neu o dan unrhyw rwymedigaeth neu ofyniad cyfreithiol neu statudol a lle y gallai'r methdaliad hwnnw gael effaith andwyol sylweddol ar ei fusnes, ei asedau neu ei gyflwr ariannol neu ei allu i barchu neu gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.

**41. DIWYGIO**

41.1 Ni all y Contract hwn gael ei ddiwygio ond yn ysgrifenedig, wedi'i lofnodi'n gan gynrychiolwyr y Partïon sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol.

**42. HEPGOR**

42.1 Ni ddehonglir bod unrhyw fethiant neu oedi ar ran y naill Barti neu'r llall i arfer unrhyw hawl neu rwymedi o dan y Contract hwn yn hepgoriad, ac ni fydd yn gweithredu fel hepgoriad, ac ni fydd unrhyw achos unigol neu rannol o arfer unrhyw hawl neu rwymedi yn atal yr hawl neu'r rhwymedi hwnnw rhag cael ei arfer ymhellach.

**43. TORADWYEDD**

43.1 Os bernir bod unrhyw ddarpariaeth neu ran o'r Contract hwn yn annilys, gellir gwneud diwygiadau i'r Contract hwn drwy ychwanegu neu ddileu geiriad fel y bo'n briodol er mwyn dileu'r rhan neu'r ddarpariaeth annilys ond fel arall yn cadw'r ddarpariaeth a darpariaethau eraill y Contract hwn i'r graddau mwyaf a ganiateir o dan y gyfraith gymwys.

**44. DEDDF CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTÏON) 1999 ("Deddf 1999")**

44.1 Ni fydd gan unrhyw berson nad yw'n Barti i'r Contract hwn (gan gynnwys heb gyfyngiad unrhyw gyflogai, swyddog, asiant, cyfranddeiliad, cynrychiolydd neu is-gontractwr naill ai'r Cleient neu'r Contractwr) unrhyw hawl i orfodi unrhyw un o delerau'r

Contract sydd yn unswydd neu drwy oblygiad yn rhoi mantais i'r person hwnnw, heb ganiatâd y ddau Barti ymlaen llaw, a dylai'r cytundeb hwnnw gyfeirio yn benodol at yr Amod 44 hwn. Nid yw'r Amod 44 hwn yn effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi unrhyw berson sy'n bodoli neu sydd ar gael heblaw yn unol â Deddf 1999.

**45. DATRYS ANGHYDFOD**

45.1 Yn ystod unrhyw anghydfod, gan gynnwys anghydfod ynghylch dilysrwydd y Contract, cytunir rhwng y ddwy ochr y bydd y Partïon yn parhau i gyflawni'r Contract (oni bai bod y Cleient yn gofyn yn ysgrifenedig nad yw'r Contractwr yn gwneud hynny).

45.2 Rhaid i'r Partïon ymdrechu yn ddidwyll i negodi setliad i unrhyw anghydfod rhyngddynt (heblaw mater y dywedir bod barn y Cleient yn derfynol mewn perthynas ag ef) sy'n deillio o'r Contract neu mewn cysylltiad ag ef o fewn deng niwrnod ar hugain (30) ar ôl i'r naill barti hysbysu'r llall am yr anghydfod. Bydd yr ymdrechion hynny yn cynnwys cyfeirio'r anghydfod at Bennaeth Caffael y Cleient a Chyfarwyddwr Cyllid y Contractwr neu'r person cyfatebol.

45.3 Ni fydd dim byd yn y Contract hwn yn atal y naill Barti neu'r llall rhag ceisio gan unrhyw lys awdurdodaeth gymwys orchymyn neu waharddeb interim sy'n atal y Parti arall rhag gwneud unrhyw beth sy'n cymell y Parti arall i wneud unrhyw weithred.

45.4 Os na ellir datrys yr anghydfod trwy negodi, caiff yr anghydfod ei gyfeirio at gyfryngu yn unol â'r weithdrefn a nodir isod oni bai naill ai:

> 45.4.1 bod y Cleient o'r farn nad yw'r anghydfod yn addas at gyfryngu; neu
>
> 45.4.2 nad yw'r Contractwr yn cytuno i gyfryngu.

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni ddehonglir bod unrhyw beth yn y Contract hwn yn eithrio neu'n cyfyngu ar hawliau unrhyw Barti i wneud ceisiadau o'r fath (gan gynnwys ceisiadau ynghylch costau ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) fel y gwêl yn dda mewn unrhyw achos, ynghylch ymddygiad y Parti arall ac yn arbennig unrhyw benderfyniad a wneir o dan Amod 45.4.1 neu 45.4.2 uchod.

45.5 Mae'r weithdrefn ar gyfer cyfryngu a darpariaethau canlyniadol sy'n ymwneud â chyfryngu fel a ganlyn:

> 45.5.1 dewisir cyfryngwr niwtral ("y Cyfryngwr") trwy gytundeb rhwng y Partïon neu, os nad ydynt yn gallu cytuno ar Gyfryngwr cyn pen pedwar diwrnod ar ddeg (14) ar ôl cais oddi wrth un Parti i'r llall neu os nad yw'r Cyfryngwr y cytunir arno yn

gallu neu os nad yw'n fodlon gweithredu, caiff y naill Barti neu'r llall wneud cais i ADR Group, Grove House, Grove Road, Redland, Bryste BS6 6UN i benodi Cyfryngwr a chynhelir y cyfryngu yn unol â rheolau a gweithdrefnau ADR Group. Os nad yw ADR Group yn gallu neu os nad yw'n fodlon enwebu Cyfryngwr yna caiff y naill Barti neu'r llall (ar yr amod y ceir cydsyniad y llall) fynd at gorff cyfryngu cydnabyddedig arall.

45.5.2 Rhaid i'r Partïon cyn pen pedwar diwrnod ar ddeg (14) ar ôl penodiad y Cyfryngwr gyfarfod ag ef er mwyn trafod a chytuno ar raglen ar gyfer cyfnewid yr holl wybodaeth berthnasol a'r weithdrefn sydd i'w mabwysiadu ar gyfer y cyfryngu. Caiff y naill Barti neu'r llall ofyn i'r Cyfryngwr roi canllawiau ar raglen addas ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a/neu weithdrefn gyfryngu.

45.5.3 Oni chytunir fel arall, bydd unrhyw negodiadau a gysylltir â'r anghydfod ac unrhyw gytundeb setliad sy'n ymwneud ag ef yn gyfrinachol a heb ragfarn i hawliau'r Partïon mewn unrhyw achos yn y dyfodol.

45.5.4 Os bydd y Partïon yn dod i gytundeb ynghylch datrys yr anghydfod neu unrhyw ran ohono, caiff eu cytundeb ei leihau i ysgrifennu a bydd yn rhwymo'r Partïon pan gaiff ei lofnodi gan bob un ohonynt neu eu cynrychiolwyr sydd wedi'u hawdurdodi yn briodol.

45.5.5 Os bydd y cyfryngu yn methu â sicrhau datrys yr anghydfod neu unrhyw ran ohono, caiff y naill Barti neu'r llall ofyn i'r Cyfryngwr ddarparu barn heb fod yn rhwymol ond barn wybodus yn ysgrifenedig. Caiff y farn honno ei darparu ar sail heb ragfarn ac ni chaiff ei defnyddio mewn tystiolaeth mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â'r Contract heb gydsyniad ysgrifenedig y ddau Barti ymlaen llaw.

45.5.6 Os bydd y Partïon yn methu â datrys yr anghydfod neu unrhyw ran ohono cyn pen trigain (60) diwrnod ar ôl i'r Cyfryngwr gael ei benodi, neu o fewn y cyfryw gyfnod hwy ac y gallai'r Partïon gytuno arno, yna gellir cyfeirio unrhyw anghydfod neu wahaniaeth heb ei ddatrys rhyngddynt i'r Llysoedd.

45.5.7 Yn ddarostyngedig i Amodau 45.3 a 45.4, caiff y naill Barti neu'r llall gychwyn unrhyw gamau yn y Llysoedd nes y bydd y weithdrefn gyfryngu a nodir yn yr Amod 45.5 hwn wedi cael ei gwblhau.

## 46. NEWID CYFANSODDIADOL

46.1 Oni bai bod y Contract hwn yn cael ei derfynu yn unol â'i delerau, bydd y Contract hwn yn parhau mewn grym er unrhyw newid statudol, cyfansoddiadol neu reoleiddiol i'r Cleient a bydd yn parhau mewn grym er budd unrhyw un neu fwy person, corfforaeth neu gorff ag a fo o dro i dro yn cario blaen swyddogaethau presennol neu ddyfodol y Cleient.

## 47. CYFRAITH AC AWDURDODAETH

47.1 Bernir mai contract sydd wedi'i wneud yng Nghymru yw'r Contract hwn a rhaid iddo gael ei lywodraethu gan gyfraith Lloegr a Chymru, fel y mae'n gymwys yng Nghymru, a'i dehongli yn unol â'r gyfraith honno. Rhaid i bob anghydfod sy'n deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef (yn ddarostyngedig i Amod 45 uchod) gael ei gyflwyno yn y lle cyntaf i awdurdodaeth y Llysoedd yng Nghaerdydd yn unig.